CPR Collections Newsletter – June 2010

CPR Collection changes…

With the secondment of Dominika Komaniecka to the TFTS Administrative Team Amy Staniforth will now be based in the Resource Centre providing access to all the Centre for Performance Research collections. We would like to receive feedback from our users (and non-users!) about our opening times and other services. During the summer months we will be appointment only and open for three days per week during term-time but are keen to find out what hours suit users best. Please communicate your thoughts to Amy by email mws@aber.ac.uk or drop by the Resource Centre for a chat. Please also remember to check the website for holiday closures: http://www.aber.ac.uk/en/tfts/research/groups-grwpiau/perf/cpr/coll/

Society for Theatre Research

CPR Collections has been awarded a grant by the Society for Theatre Research to facilitate student engagement. With the support of Carl Lavery and Michael Freeman from the Ceredigion Museum we successfully applied for funds to purchase archival quality display and handling equipment such as acid free polyester pockets, book supports, and heavy duty boxes for transportation.
http://www.str.org.uk/research/awards/index.html

The Third Forage: Dance and Choreography

Theatre, Film and Television Studies colleagues Margaret Ames, Sabine Sorgel and Louise Ritchie looked for traces of dance in CPR's International Theatre Collection (ITC) in **The Third Forage: Dance and Choreography** on **Tuesday May 25th** and instigated a discussion about dance historiography**.** Louise explored transmission of performance through the notation of folk dances in Cecil Sharp's books of 1915 and Margaret raised issues of translation (and untranslatability) in the dance notation of Rudolph Laban (and original German texts) whilst Sabine reflected on 'chorographic portraiture' in memorabilia of Anna Pavolva. Notes and images will be added to those already on CADAIR shortly and the **Fourth Forage** will see Stephen Greer, Alison Forsyth and Richard Allen investigate the ITC in October:
http://cadair.aber.ac.uk/dspace/handle/2160/4159

World Theatre Journal Donation

A new collection of the journal *World Theatre* has just been accessioned. Donated by Departmental Fellow Barbara Cavanagh the 48 journals run from 1950 to 1968 with special editions on the national theatre of the USSR, the Federal Republic of Germany, Norway, France, Canada, Yugoslavia and India, for example. Special themed issues address subjects such as masks, festivals, the public, puppets outside Europe, opera and musical comedy, theatre architecture, and theatre on television. Make an appointment to have a look: mws@aber.ac.uk

Box lists online!

With valuable assistance from volunteers we now have a very basic listing for 70 of the 180 ITC boxes which contain books, catalogues, programmes and other theatre ephemera. We have a hard copy in CPR for you to consult and while we finish the process we have put a searchable PDF of the current list online. If you find something you would like to come and see or have additional information about an item do get in touch: http://www.aber.ac.uk/en/tfts/research/groups-grwpiau/perf/cpr/coll/

Making Theatre Making History

For the second year running CPR Collections has welcomed Carl Lavery's students working on theatre and the French Revolution. After a talk about special collection research, students examined French items from the eighteenth and nineteenth centuries—pamphlets, memoirs, theatre histories, costume designs—and discussed theatre's production of documentation and ideas for creative fiction coursework. We have items relevant to many areas of theatre and performance research—history, architecture, scenography, acting and directing, Shakespeare, festivals, national traditions and so on—so if these might be of use in your modules do let Amy know mws@aber.ac.uk



***Performance Research* Archive**

On his recent internship with CPR Steve McCann not only helped facilitate the recent Directors' Forum, he also made the first inroads into the PR journal archive. Steve has been organising the journal's documentation to make it more accessible and he is sure that the early material relating to the journal's establishment in 1995, in particular, will prove fascinating reading. Keep an eye on the website for the new Finding Aid: http://www.aber.ac.uk/en/tfts/research/groups-grwpiau/perf/cpr/coll/

Digitisation KESS Scholarship

CPR Collections has linked TFTS and the Department of Information Studies in a new KESS Mini scholarship with Digitisation Development at the National Library of Wales. Over the course of a year a postgraduate student will explore knowledge transfer opportunities between large and small scale collections and after training in digitisation at NLW will devise a digital strategy and training package for CPR's photographic collection under the supervision of DIS' Lucy Tedd, while cataloguing the Peter Hope Jones collection at NLW.

International Theatre Collection Books Available

446 ITC books have been catalogued onto Aberystwyth University's online Voyager catalogue and the latest additions include a *Handbook on Soviet Drama* by Henry Dana, Doris Zinkeisen's *Designing for the Stage*, Simon Reade's *Cheek by Jowl: Ten Years of Celebration*, Giuseppe Radicchio's *Les theatres de Paris Pendant la Révolution*, Barbara Mittman's *Spectators on the Paris Stage*, Howard Goorney's *Theatre Workshop Story*, Anthony Wylson's *Architecture for Leisure Entertainment*, and Arthur Lessac's *Body Wisdom: the Use and Training if the Human Body*.
Keep an eye out for CPR books when searching on Voyager:
http://voyager.aber.ac.uk/vwebv/searchBasic?sk=en

Volunteers- a thank you!

We have received welcome support from a range of volunteers; Lara Beasley who came a day a week until starting a new job; Carmel George who has reorganised CPR photos, Suzanne Therese Palka who listed ITC boxes while on an IS internship from Germany, Henrike Joerrens who helped Dominika Komaniecka on a recent audit, and most recently Charlotte Rose and Joe Blockley, new English graduates helping out before they leave Aberystwyth for pastures new. We would like to thank every volunteer and ask for staff to encourage students, family and friends who may be interested, to give us a few vital hours a week. We need help with listing, collection care, scanning and metadata projects and web development. Contact Amy on mws@aber.a.c.uk or 2024 for more information.

Llythyr Newyddion Casgliadau'r Ganolfan Ymchwil i Berfformio – Mehefin 2010

Newid trefniadaeth Casgliadau'r GYiB…

Yn sgil secondiad Dominika Komaniecka i dîm gweinyddol ThFfTh bydd Amy Staniforth nawr yn gweithio yn y Ganolfan Adnoddau ac yn trefnu mynediad i weld casgliadau'r Ganolfan. Fe hoffem gael adborth gan ein defnyddwyr (ac unrhyw un arall!) am yr amserau agor a'r gwasanaethau eraill. Dros fisoedd yr haf ceir mynediad trwy apwyntiad yn unig ac rydym ar agor dridiau'r wythnos yn ystod y tymor, ond rydyn ni'n awyddus i glywed pa oriau sydd orau i'n defnyddwyr. Cysylltwch ag Amy i ddweud wrthi am unrhyw syniad sydd gennych mws@aber.ac.uk neu galwch heibio'r Ganolfan am sgwrs. Cofiwch edrych ar y wefan i weld y cyfnodau cau dros y gwyliau: http://www.aber.ac.uk/en/tfts/research/groups-grwpiau/perf/cpr/coll/

Y Gymdeithas Ymchwil i Theatr

Dyfarnwyd grant i Gasgliadau'r Ganolfan gan y Gymdeithas Ymchwil Theatr i'w gwneud yn haws i ddangos y casgliad i fyfyrwyr. Gyda chymorth Carl Lavery a Michael Freeman o Amgueddfa Ceredigion gwnaethom gais llwyddiannus am gyllid i brynu cyfarpar trin a thrafod ac arddangos o safon archifol, er enghraifft pocedi polyester di-asid, offer dal llyfrau, a blychau cryfion i symud deunydd.
http://www.str.org.uk/research/awards/index.html

Y Trydydd Cyrch: Dawns a Choreograffeg

Ddydd Mawrth Mai 25, aeth ein cydweithwyr yn ThFfTh, sef Margaret Ames, Sabine Sorgel a Louise Ritchie, ar drywydd dawns yn y Casgliad Theatr Rhyngwladol yn seminar **Y Trydydd Cyrch: Dawns a Choreograffeg,** gan sbarduno trafodaeth am hanesyddiaeth dawns**.** Yr agwedd a archwiliodd Louise oedd trosglwyddiad perfformiad trwy nodiant dawnsiau gwerin yn llyfrau Cecil Sharp, 1915 a chododd Margaret faterion yn ymwneud â chyfieithu (a'r anghyfieithiadwy) yn nodiant dawns Rudolph Laban (a thestunau Almaeneg gwreiddiol) a bu Sabine yn ystyried 'portreadu corograffig' ymhlith memorabilia Anna Pavolva. Caiff nodiadau a delweddau eu hychwanegu cyn hir at y rhai sydd eisoes ar CADAIR. Yn y **Pedwerydd Cyrch,** ym mis Hydref, bydd Stephen Greer, Alison Forsyth a Richard Allen yn fforio yn y casgliad: http://cadair.aber.ac.uk/dspace/handle/2160/4159

Derbyn Rhodd

Yn ddiweddar derbyniwyd casgliad newydd o'r cyfnodolyn *World Theatre* yn rhodd gan un o Gymrodyr yr Adran, sef Barbara Cavanagh. Mae'r 48 rhifyn yn rhedeg o 1950 i 1968 ac yn cynnwys rhifynnau arbennig ar theatr genedlaethol Yr Undeb Sofietaidd, Gweriniaeth Ffederal yr Almaen, Norwy, Ffrainc, Canada, Iwgoslafia ac India, er enghraifft. Ymhlith y themâu mewn rhai rhifynnau arbennig y mae mygydau, gwyliau, y cyhoedd, pypedau y tu allan i Ewrop, opera a chomedi cerddorol, pensaernïaeth theatrau, a theatr ar y teledu. Gwnewch apwyntiad i gael golwg arno: mws@aber.ac.uk

Rhestrau ar lein!

Gyda chymorth gwirfoddolwyr mae gennym nawr restr sylfaenol iawn o gynnwys 70 o'r 180 blwch yn y casgliad rhyngwladol, sy'n cynnwys llyfrau, catalogau, rhaglenni ac effemera arall. Mae gennym gopi ar bapur yn y Ganolfan i edrych drwyddo ac rydym wedi rhoi PDF o'r rhestr bresennol ar lein. Os gwelwch rywbeth yr hoffech chi gael golwg arno neu os oes gennych ragor o wybodaeth am eitem cofiwch gysylltu â ni: http://www.aber.ac.uk/en/tfts/research/groups-grwpiau/perf/cpr/coll/

Creu Theatr Creu Hanes

Am yr ail flwyddyn o'r bron mae Casgliadau'r Ganolfan wedi croesawu myfyrwyr Carl Lavery sy'n gweithio ar theatr a'r Chwyldro Ffrengig. Ar ôl sgwrs am ymchwil i gasgliadau arbenigol, bu'r myfyrwyr yn archwilio eitemau Ffrengig o'r ddeunawfed a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg - pamffledi, atgofion, hanesion theatr, cynllun gwisgoedd – ac yn trafod y dogfennau a'r syniadau a gynhyrchir gan theatr ar gyfer gwaith cwrs ffuglen greadigol. Mae gennym eitemau sy'n berthnasol i sawl maes ymchwil i berfformio a theatr - hanes, pensaernïaeth, senograffeg, cyfarwyddo ac actio, Shakespeare, gwyliau, traddodiadau cenedlaethol ac yn y blaen – pe gallai'r rhain fod o ddefnydd yn un o'ch modiwlau rhowch wybod i Amy, mws@aber.ac.uk



Archif *Ymchwil i Berfformio*

Yn ystod ei gyfnod preswyl yn y Ganolfan nid yn unig y gwnaeth Steve McCann gyfraniad arbennig tuag at drefnu Fforwm y Cyfarwyddwyr, fe ddechreuodd weithio ar yr archif cyfnodolion. Mae Steve wedi bod yn trefnu dogfennau'r cyfnodolyn i'w gwneud yn haws ei ddefnyddio ac mae'n teimlo bod y deunydd cynnar sy'n sôn am sefydlu'r cyfnodolyn ym 1995, yn arbennig, yn hynod ddiddorol. Cymerwch olwg ar y wefan i weld y dull newydd o chwilio:
http://www.aber.ac.uk/en/tfts/research/groups-grwpiau/perf/cpr/coll/

Ysgoloriaeth Digideiddio KESS

Mae Casgliadau'r GYiB wedi dod â ThFfTh a'r Adran Astudiaethau Gwybodaeth ynghyd mewn ysgoloriaeth fach KESS newydd gyda Datblygiad Digideiddio yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru [LlGC]. Dros gyfnod o flwyddyn bydd myfyriwr uwchraddedig yn edrych ar y posibiliadau o drosglwyddo gwybodaeth rhwng mân gasgliadau a chasgliadau mawrion ac, yn dilyn hyfforddiant yn LlGC, bydd yn dyfeisio strategaeth ddigidol a phecyn hyfforddi ar gyfer casgliad ffotograffau'r Ganolfan o dan arolygaeth Lucy Tedd yn yr Adran Astudiaethau Gwybodaeth, wrth gatalogio casgliad Peter Hope Jones yn LlGC.

Llyfrau o'r Casgliad Theatr Ryngwladol

Cynhwyswyd 446 o lyfrau'r casgliad uchod yng nghatalog arlein y Brifysgol, Voyager, ac mae'r ychwanegiadau diweddaraf yn cynnwys *Handbook on Soviet Drama* gan Henry Dana, *Designing for the Stage* gan Doris Zinkeisen, *Cheek by Jowl: Ten Years of Celebration* gan Simon Reade, *Les theatres de Paris Pendant la Révolution* gan Giuseppe Radicchio, *Spectators on the Paris Stage* gan Barbara Mittman, *Theatre Workshop Story* gan Howard Goorney, *Architecture for Leisure Entertainment* gan Anthony Wylson, a *Body Wisdom: the Use and Training of the Human Body* gan Arthur Lessac. Cadwch eich llygaid ar agor am lyfrau'r Ganolfan wrth chwilio drwy Voyager: http://voyager.aber.ac.uk/vwebv/searchBasic?sk=en

Gwirfoddolwyr – gair o ddiolch!

Rydym wedi cael llawer o gymorth gan bob math o wirfoddolwyr; Lara Beasley, a weithiodd undydd yr wythnos tan iddi gael swydd newydd; Carmel George, a aildrefnodd ffotograffau'r Ganolfan, Suzanne Therese Palka, ar gyfnod preswyl o'r Almaen, a wnaeth restr o flychau'r Ganolfan, Henrike Joerrens a fu'n cynorthwyo Dominika Komaniecka ar archwiliad diweddar, ac yn fwyaf diweddar Charlotte Rose a Joe Blockley, graddedigion newydd a fu'n rhoi help llaw cyn gadael Aberystwyth. Hoffem ddiolch i bob un a gofyn i staff annog myfyrwyr, teuluoedd a chyfeillion y gallai fod ganddynt ddiddordeb i roi awr neu ddwy yr wythnos i'n helpu. Mae arnom angen cymorth gyda rhestru, gofalu am y casgliad, sganio a metadata a datblygu'r we. Cysylltwch ag Amy ar mws@aber.a.c.uk neu 2024 i gael rhagor o wybodaeth.